**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Y Llywydd

26 Gorffennaf 2019

Hawliau pleidleisio i garcharorion

Annwyl Elin

Diolch am eich ymateb i'n hadroddiad ar hawliau pleidleisio i garcharorion. Rwy'n ysgrifennu i ofyn am eglurhad pellach ynghylch y camau nesaf.

Yn eich ymateb, dywedwch mai barn y Comisiwn yw mai "Gweinidogion Cymru sydd â'r penderfyniad" ynghylch a ddylid newid yr etholfraint mewn perthynas â phleidleisio carcharorion.

Cafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru hefyd, ond nid yw ond yn ymdrin â'r argymhellion a wnaethom ar ei chyfer. Mae copi o'r llythyr hwn ynghlwm. Yn ei hymateb i argymhelliad 1, nodir bod y rhan sy'n ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad "wedi'i gyfeirio at y Llywydd a hi, yn y lle cyntaf, ddylai ymateb yng nghyd-destun Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)."

Dyma ofyn bellach am eglurhad ynghylch sut yr ymdrinnir â'r materion sy'n ymwneud â hawliau pleidleisio i garcharorion ac etholfraint y Cynulliad, a phwy fydd yn gyfrifol am y mater hwn. Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 18 Medi, fel y gellir ei ystyried yn y ddadl yn y Cynulliad ar 25 Medi.

Rwyf hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y mater hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

John

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

John Griffiths

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

Wedi'i amgáu: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar Hawliau Pleidleisio i Garcharorion.

CC: Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref - MA-P-JJ/2557/19

John Griffiths AC/AM
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cydraddoldeb Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

19 Gorffennaf 2019

Annwyl John

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau o dan y teitl Hawliau Pleidleisio i Garcharorion**

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau am eich gwaith gwerthfawr ar Hawliau Pleidleisio i Garcharorion, mater pwysig sy'n ennyn teimladau cryfion. Ar ôl ystyried y dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a gyflwynwyd iddynt, mae'r Pwyllgor wedi cynhyrchu adroddiad craff a nifer o argymhellion. Mae'r ymateb sydd wedi'i atodi yn rhoi sylw i'r argymhellion a wnaed, yn llawn neu'n rhannol, i Lywodraeth Cymru yn unig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol ers tro i'r egwyddor o ganiatáu i rai carcharorion o Gymru o leiaf bleidleisio mewn etholiadau Cymreig.

Mae'ch adroddiad yn nodi'r prif faterion sy'n codi ac yn gywir i dynnu sylw at ddadleuon cryf o blaid ac yn erbyn rhoi'r bleidlais i garcharorion. Rwy'n nodi eich sylwadau am gydbwyso'r ffactorau moesol, moesegol, cyfreithiol ac ymarferol hynod gymhleth, ac rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am edrych yn fanwl ar y materion hyn yn ystod ei ymchwiliad.

Bydd adroddiad y Pwyllgor a'r dystiolaeth a gasglwyd yn sicr o helpu Llywodraeth Cymru i ystyried y materion sy'n codi ynghylch deddfu i ganiatáu i garcharorion bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Byddwn yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid a phartneriaid a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

nodwyd yn yr adroddiad; wrth wneud hynny byddwn yn rhoi sylw arbennig i ddarparu gymaint â phosib o sicrwydd i ddioddefwyr a dioddefwyr posib troseddau.

Yn gywir



**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

**Ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad, Hawliau Pleidleisio i Garcharorion:**

**Argymhelliad 1**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

bod Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i roi'r hawl i bob carcharor o Gymru bleidleisio mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru, os cawsant ddedfryd o lai na phedair blynedd o garchar. Nid yw Mohammad Asghar a Mark Isherwood yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd caniatáu i rai carcharorion o leiaf bleidleisio yn anfon neges gadarn a chadarnhaol i garcharorion bod ganddynt ran i'w chwarae yn ein cymdeithas ac, yn ei dro, bod ganddynt gyfrifoldebau tuag at y gymdeithas yn gyfan. Bydd etholfraint sy'n seiliedig ar hyd y ddedfryd yn ffordd o sicrhau cydbwysedd rhesymol; rydym yn cytuno bod dedfryd o garchar am bedair blynedd yn drothwy priodol, sy'n cydnabod natur, difrifoldeb ac amgylchiadau'r drosedd. Yn unol â hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i gyflwyno deddfwriaeth yn ystod y Cynulliad hwn i alluogi carcharorion o Gymru sydd wedi cael dedfryd o garchar am lai na phedair blynedd i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol datganoledig. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill i weithredu deddfwriaeth o'r fath. Rydym yn amcangyfrif y byddai tua 1,900 o garcharorion allan o gyfanswm o tua 4,800 o garcharorion o Gymru yn derbyn etholfraint.

Mae'r argymhelliad ynghylch etholiadau'r Cynulliad wedi'i gyfeirio at y Llywydd a hi, yn y lle cyntaf, ddylai ymateb yng nghyd-destun Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Goblygiadau Ariannol – Bydd goblygiadau ariannol darparu hawl i garcharorion bleidleisio yn cael sylw fel rhan o'r negodiadau gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 2**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

os bydd yr etholfraint gyffredinol yn cael ei hymestyn i bobl ifanc 16 ac 17 oed, fod Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i gynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed yn y ddalfa yn yr etholfraint honno, ar yr un sail â charcharorion dros 18 oed. Nid yw Mohammad Asghar a Mark Isherwood yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig i bobl ifanc 16 ac 17 oed yn gyffredinol. Wrth ystyried yr achos ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed sydd yn y ddalfa, rydym yn derbyn argymhelliad y Pwyllgor. Byddai trin pobl mor ifanc sydd yn y ddalfa yn wahanol i'r carcharorion sy'n oedolion yn achosi dryswch a chymhlethdod gweinyddol. Byddai hyn yn arbennig o wir yn achos pobl ifanc sydd wedi cael eu trosglwyddo i garchar oedolion i gwblhau dedfryd o bedair blynedd neu fwy, pan fyddent yn gorfod cael eu trin fel oedolyn ac, yn ôl pob tebyg, yn colli'r hawl i bleidleisio. Yn unol â hynny, byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth yn ystod y Cynulliad hwn i alluogi pobl ifanc o Gymru sydd yn y ddalfa ac wedi cael dedfryd o garchar am lai na phedair blynedd i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid eraill i weithredu deddfwriaeth o'r fath. Fel rheol mae rhwng 21 a 28 o bobl ifanc (hyd at 18 oed) o Gymru yn y ddalfa.

Mae'r argymhelliad ynghylch etholiadau'r Cynulliad wedi'i gyfeirio at y Llywydd a hi, yn y lle cyntaf, ddylai ymateb yng nghyd-destun Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Goblygiadau Ariannol – Bydd goblygiadau ariannol darparu hawl i garcharorion bleidleisio yn cael sylw fel rhan o'r negodiadau gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 3**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

bod Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol sy'n newid yr etholfraint yn cael ei rhoi ar waith o leiaf chwe mis cyn unrhyw etholiad.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod hyn yn gam cwbl synhwyrol ar sail cyngor y Comisiwn Etholiadol a Gweinyddwyr Etholiadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid a phartneriaid i sicrhau y bydd yr holl ddeddfwriaeth berthnasol yn ei lle cyn etholiad pan fydd hawl gan garcharorion a phobl ifanc sydd yn y carchar i bleidleisio.

Mae'r argymhelliad ynghylch etholiadau'r Cynulliad wedi'i gyfeirio at y Llywydd a hi, yn y lle cyntaf, ddylai ymateb yng nghyd-destun Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Goblygiadau Ariannol – Dim – bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â gwneud deddfwriaeth yn cael eu hamsugno o fewn cyllidebau gweinyddol.

**Argymhelliad 4**
Wedi'i anelu at y Comisiwn Etholiadol yn unig.

**Argymhelliad 5**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

bod Llywodraeth Cymru yn trafod ac yn dod i gytundeb â Llywodraeth y DU i sicrhau bod pob carchar sy'n dal carcharorion o Gymru yn dynodi Cydlynydd Etholiad o blith staff y carchar.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai'n synhwyrol pennu Cydlynydd Etholiad o blith staff pob carchar, ac y byddai hynny'n darparu ffynhonnell bwysig o gyngor a chymorth i garcharorion sydd am arfer eu hawl i gofrestru a phleidleisio. Mae'r diffyg tystiolaeth bod carcharorion sy'n gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd yn arfer yr hawl hwnnw mewn gwirionedd yn awgrymu y dylai pob carchar gael cydlynydd etholiad, nid y rhai â charcharorion o Gymru yn unig. Byddwn yn codi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU.

Goblygiadau Ariannol – Bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn dibynnu ar yr amgylchiadau ym mhob carchar sy'n dal carcharorion cymwys o Gymru, ac yn destun negodiadau yn y dyfodol gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 6**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

bod Llywodraeth Cymru a’r Comisiwn Etholiadol yn llunio Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llywodraeth y DU a’r Gwasanaeth Carchardai i sicrhau bod yr holl garcharorion cymwys wedi’u cofrestru i bleidleisio a’u bod yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn unrhyw etholiadau y maent yn gymwys i bleidleisio ynddynt.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai Llywodraeth y DU a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi fod yn gwneud hyn eisoes ar gyfer carcharorion sy'n gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd. Mae'r diffyg tystiolaeth bod carcharorion o'r fath yn arfer eu hawliau yn ategu'r achos dros gael Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth er mwyn i garcharorion o Gymru fedru cymryd rhan mewn etholiadau perthnasol o leiaf. Byddwn yn codi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU.

<u>Goblygiadau Ariannol</u> – Dim – bydd costau staffio a gweinyddol Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â negodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cael eu hamsugno o fewn cyllidebau gweinyddol.

**<u>Argymhelliad 7</u>**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

bod Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth i alluogi carcharorion i gofrestru naill ai yn eu cyfeiriad cartref diwethaf, y cyfeiriad y cânt eu rhyddhau iddo, neu drwy ddatganiad o gysylltiad lleol. Wrth wneud hynny dylent sicrhau bod mesurau diogelu perthnasol yn cael eu rhoi ar waith i amddiffyn dioddefwyr a darpar ddioddefwyr troseddau.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried holl elfennau'r argymhelliad. Os bydd etholiad yn cael ei gynnal yn fuan ar ôl yr euogfarn, mae'n bosib y bydd y carcharor yn dal i fod wedi'i gofrestru yn ei gyfeiriad cartref; ar ben hynny mae deddfwriaeth bresennol (yn adran 7B o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983) eisoes yn caniatáu i'r categorïau presennol o garcharorion sy'n gymwys i bleidleisio gofrestru gan ddefnyddio datganiad o gysylltiad lleol. Byddem yn ceisio deddfu i alluogi carcharorion o Gymru i gofrestru ar yr un sail ar gyfer etholiadau perthnasol. Byddai cofrestru ar sail cyfeiriad yn y dyfodol yn syniad newydd; mae dilysrwydd person fel etholwr mewn ardal benodol bob amser wedi bod ar sail preswylio yn yr ardal honno neu fod â chysylltiad cadarn ac amlwg arall gyda'r ardal honno. Bydd rhaid i ni edrych i weld os yw'n ymarferol, yn arbennig a fyddai'n cyd-fynd â threfniadau canfasio newydd, ac a yw'n briodol cyflwyno'r cyfleuster hwn ar gyfer categori unigol o etholwyr. Byddwn yn ymgynghori â sefydliadau sy'n cynrychioli dioddefwyr er mwyn sicrhau bod y mesurau diogelu angenrheidiol wedi'u cynnwys mewn unrhyw systemau newydd ar gyfer cofrestru.

<u>Goblygiadau Ariannol</u> – Dim – bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â gwneud deddfwriaeth o'r fath yn cael eu hamsugno o fewn cyllidebau gweinyddol. Bydd y costau gweithredu yn dibynnu ar drafodaethau gyda Llywodraeth y DU a swyddogion cofrestru etholiadol.

**<u>Argymhelliad 8</u>**
Mae'r Pwyllgor yn argymell:

bod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn cyflwyno deddfwriaeth er mwyn i garcharorion sy'n gymwys i bleidleisio allu gwneud hynny naill ai drwy bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy. Dylid cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod unrhyw rwystrau logistaidd yn cael eu lliniaru.

**Ymateb: Derbyn**

Byddai carcharorion sy'n gymwys i bleidleisio ar hyn o bryd â hawl i wneud hynny tra'u bod yn y carchar drwy bleidlais bost neu ddirprwy yn unig. Nid ydym yn gweld unrhyw reswm i newid y trefniant hwn ac ni fyddem yn cyflwyno gorsafoedd pleidleisio mewn carchardai.

Goblygiadau Ariannol – Dim – bydd y costau staffio a gweinyddol sy'n gysylltiedig â gwneud deddfwriaeth o'r fath yn cael eu hamsugno o fewn cyllidebau gweinyddol. Bydd y costau gweithredu yn dibynnu ar drafodaethau gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Fel rhan o'r gwaith o sefydlu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cyfeirir ato yn argymhelliad 6, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru drafod gyda Llywodraeth y DU sut y gallai ymgeiswyr cofrestredig, gwleidyddion etholedig a chynrychiolwyr y pleidiau sy'n cymryd rhan gwrdd â charcharorion.

**Ymateb: Derbyn**

Mae llawer o hyn eisoes wedi cael sylw yng Ngorchymyn Gwasanaeth Carchardai 4650, canllaw presennol y Gwasanaeth Carchardai i lywodraethwyr carchardai am hawliau pleidleisio i garcharorion. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddiweddaru'r canllawiau.

Goblygiadau Ariannol – Dim – bydd y costau yn rhan o'r negodiadau y cyfeiriwyd atynt dan argymhelliad 6.

**Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

bod Llywodraeth Cymru yn trafod ac yn dod i gytundeb gyda Llywodraeth y DU bod pobl mewn carchardai lle mae nifer sylweddol o Gymry yn cael cyfle i gael mynediad at y cyfryngau Cymreig, yn brint ac yn ddarllediadau.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod gan garcharorion mewn carchardai yng Nghymru fynediad at gyfryngau o'r fath, ond rydym yn derbyn yr achos dros roi'r un mynediad hefyd i garcharorion o Gymru sydd wedi'u cadw mewn carchardai yn Lloegr. Byddwn yn codi'r mater hwn gyda Llywodraeth y DU.

Goblygiadau Ariannol – Bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn dibynnu ar yr amgylchiadau ym mhob carchar ac yn cael sylw yn y trafodaethau dilynol gyda Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 11**

Wedi'i anelu at y Comisiwn Etholiadol yn unig.